

Dueddiadau Groser

Tueddiadau Groser Allweddol 2016




ARBED AMSER – Mae pobl yn chwilio ffyrdd o arbed amser, o ran dulliau siopa a pharatoi bwyd. Mae'r sectorau 'Allan o'r Cartref' ac 'Wrth Fynd' yn ffynnu wrth i siopwyr brynu allan yn amlach. Mae brechwast yn gyrru'r sector Alln o'r Cartref, gyda'r achlysur boreol yn dod yn farchnad gynyddol gystadleuol. Mae strategaeth y Co-op o ganolbwyntio ar gynnig profiad siopa cyfleus yn profi'n llwyddiannus. Bydd cyfres o siopau newydd yn 2017 yn debygol o gryfhau hyn.



ARBED ARIAN – Er gwaethaf arafu yn eu twf, mae'r cwmnïau disgownt yn parhau i berfformio'n well, gan ddal 9.2% o'r farchnad (Cyfanswm Groser, 52w/g 01 Ion 2017). Mae lefelau hyrwyddo'n sefydlogi, gyda symudiad oddi wrth gynigion ar sail cyfaint i ostyngiad symlach mewn prisiau. Cafwyd gostyngiad mewn prisiau bwyd yn 2016, sy'n dda i siopwyr, ond disgwylir i brisiau godi yn sgil yr amgylchedd wleidyddol ac economaidd. Bydd sut y bydd y sector adwerthu yn ymdopi â hynny'n thema ar gyfer 2017.



IACHACH – Mae galw am fwydydd iach yn cynyddu, ond mae ystyr 'iach' yn newid. Mae'n ymwneud mwy a mwy â manteision i iechyd, bod yn fwy naturiol a heb eu prosesu, yn hytrach na rheoli calorïau a maint prydau. Gwelwyd twf mewn bwydydd heb elfennau penodol ac fel dewis arall yn lle llaeth. Mae gordewdra yn broblem sylweddol, sydd wedi dwysáu yn sgil Cynllun Gordewdra Plant y llywodraeth, sy'n canolbwyntio ar siwgr. Mae defnyddwyr hefyd yn gynyddol bryderus am siwgr, ac yn dechrau symud oddi wrth gynnyrch sydd â lefelau siwgr uchel.



YSTYRLON – Mwy o bwyslais ar 'brofiad' a chyfuno gwerth a diben. Mae ffordd o fyw pobl yn newid, gyda thuedd i fod â mwy o arian a llai o amser, ac felly'n chwilio am atebion ac yn fodlon talu am hynny – e.e. llysiâu parod. Mae moeseg a chynaliadwyedd hefyd yn rhan o hyn. Mae amrediad y cynnyrch yn mynd yn llai neu'n fwy syml, ac felly mae creu cyflenwad yn gynyddol anodd. Mae hyd yn oed yn bwysicach bod y cyfuniad cywir o gynnyrch ar gael.

Mae'r grŵp oedran dros 55 yn cyfrif am 28% o'r boblogaeth ond 46% o wariant ar fwydydd. Mae darparu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio'n bwysig.

Mae cenhedlaeth y mileniwm hefyd yn cael mwy o ddylanwad. Er enghraifft, wrth i fwyta allan ddod yn ddewis mwy poblogaidd, mae llai o alw am y prydau achlysur bwyta i mewn.

Mae achlysuron bwyta i mewn yn newid hefyd, wrth i aelwydydd llai (60% o aelwydydd ag 1 neu 2 o bobl o'i gymharu â 40% 50 mlynedd yn ôl) olygu rhagor yn bwyta ar eu pen eu hunain.

Mae'r hinsawdd economaidd yn golygu fod ansicrwydd i ddod. Yn ystod y dirwasgiad diwethaf, ni chafwyd newid sylweddol mewn cyfaint bwydydd, gan fod siopwyr yn rheoli gwariant mewn ffyrdd eraill, e.e. trwy brynu eitemau rhatach neu mewn siopau rhatach neu fanteisio mwy ar gynigion arbennig.

Mae defnyddwyr eisoes yn fwy craff ac yn llai teyrngar i frandiau, ac efallai mai ffactorau eraill fydd yn penderfynu ar y canlyniadau y tro yma. Bydd sut mae adwerthwyr yn ymateb i gynnydd mewn chwyddiant wrth foddhau galw'r defnyddwyr am brisiau cystadleuol yn allweddol wrth i werth is y bunt roi pwysau ar brisiau mewnbnwn.